CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

16 Medi 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng R Hughes, W Williams, S Jones, D ap Rhobert, M Jones, G D Williams, C McGregor, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams, E Williams, A Wyn	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng R Hughes. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng C McGregor eitem 4.8 a 5.2
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.07.25. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng S Jones yn cynnig a Cyng M Jones yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**B5110 40myh** - Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya.
4.2	**Sgwar Talwrn (damweiniau)** – Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn a oedd yr arolwg cyflymder wedi digwydd.
4.3	**Coeden Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd** – Mae angen gwaith pellach ar y safle. Bydd y Clerc yn trefnu i hyn gael ei wneud. Bydd hefyd yn gofyn am ddyfynbris i atgyweirio'r wal.
4.4	**8 Maes y Coed, Talwrn** - Mae'r Clerc yn dal i aros i glywed mwy gan y Cyngor Sir.
4.5	**Golau fflachio** - Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ac mae'r arwydd sy'n fflachio yn gweithio
4.6	**Ildio Talwrn -** Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn pryd mae'n debyg y bydd y gwaith yn cael ei wneud.
4.7	**Gor-yrru Talwrn (Halfway)** – gweler 4.6
4.8	**Rwbel gyferbyn a'r Hen Siop** - mae hwn wedi cael ei symud o'r safle
4.9	**Drych Lon Cae Cwta -** Mae'r dryll wedi cael ei ail osod.
4.10	**Porth Newydd/carfannau Llanddyfnan** - Mae'r Clerc yn aros i glywed gan y Cyngor Sir
4.11	**Arwydd ychwanegol Llangwyllog** - Mae'r Cyngor Sir wedi gofyn i'w contractwr osod chevron ychwanegol ar y safle.
	Llofnod……..Cadeirydd 28.10.25